PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 9 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Lay |

85 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Gordon a Lay

86 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018 yn wir gofnod.

87 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim

88 : DEISEBAU

Cais, Tir yn De Clare Drive, Radur

Mewn perthynas â'r uchod, siaradodd y deisebydd ac ymatebodd yr asiant.

89 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: PENDERFYNWYD: Penderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir i'r Pwyllgor ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

## CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO DAN ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/03026/MJR – CATHAYS

TIR AR GYFFORDD HEOL Y GOGLEDD A MAINDY ROAD
Dymchwel yr adeiladau presennol ac ailddatblygu llety i fyfyrwyr (tua 3.644M2) yn cynnwys stiwdios a chlystyrau, ardaloedd amwynder cyffredin, mannau amwynder agored allanol, 1 uned A1/A3 a gwaith priffordd a thirlunio cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 i nodi:

‘Dogfennau – Adroddiad Arolwg Canfod Ystlumod’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 11:

‘Diddymu’r gair “priffordd" o’r llinell olaf ond un’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 19:

‘Dileu (i) nad oes ei angen ac ailrifo’r pwyntiau eraill’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 21:

‘Dylai’r cyfeiriad at Amod 17 gyfeirio at Amod 20’

17/03034/MNR - RADUR

TIR YN DE CLARE DRIVE
Codi 36 uned tai fforddiadwy, storfa biniau, storfa coetsys a beics, maes parcio lefel yr wyneb a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 11 i nodi:

‘Ni ddylai meddiant buddiannol ddigwydd tan bo manylion...’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 15:

‘Dileu (i) nad oes ei angen ac ailrifo’r pwyntiau eraill’

## CEISIADAU A WRTHODWYD

18/00034/MNR – TREGANNA

105 ROMILLY ROAD
Newid defnydd o anhedd 3 ystafell wely i Dŷ Amlfeddiannaeth 7 gwely a chosi estyniad un llawr a throsi atig dormer.

RHESWM:

1. Bydd y cynnig yn dwysau effaith annerbyniol, negyddol sy’n cronni ar amwynderau’r ardal trwy:

    - Nifer uwch o breswylwyr mudol yn arwain at lai o gydlyniad cymunedol a thanseilio amcanion sicrhau cymuned defnydd cymysg cynaliadwy, yn groes i Bolisi KP5 (Dyluniad Cynaliadwy o Safon Dda) a H5 (Is-Rannu neu Drosi Eiddo Preswyl Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2026) a Chanllaw Cynllunio Atodol Tai Amlfeddiannaeth (2016).

    - Cyfran uwch o breswylwyr mudol yn arwain at ragor o alw cronnol ar seilwaith cymdeithasol, cymunedol a chorfforol, yn groes i Bolisi KP5 (Dyluniad Cynaliadwy o Safon Dda) a H5 (Is-Rannu neu Drosi Eiddo

Preswyl Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2016) a Chanllaw Cynllunio Atodol Tai Amlfeddiannaeth (2016).

2. Bydd newid defnydd yr eiddo o annedd C3 i Dŷ Amlfeddiannaeth C4 yn gwaethygu effaith negyddol Tai Amlfeddiannaeth eto fyth, o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn groes i Bolisi H5 (Is-rannu neu Drosi Eiddo Preswyl Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2026) a Chynllun Datblygu Lleol Tai Amlfeddianntaeth (2016).

90 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – EBRILL 2018

91 : (EITEMAU) BRYS OS OES RHAI

Dim

92 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 13 MEHEFIN 2018